



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymhellion hyfforddi athrawon yng Nghymru – blwyddyn academiaidd 2017/18



Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth: rhif 194/2017

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

Yn disodli dogfen wybodaeth: rhif 187/2016

Cymhellion hyfforddi athrawon yng Nghymru – blwyddyn academiaidd 2017/18

Cynulleidfa

Myfyrwyr ar gyrsiau addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru yn y flwyddyn academiaidd 2017/18.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth am y cymhellion hyfforddi i athrawon. Mae'n rhoi amlinelliad o'r cyllid sydd ar gael, pwy sy'n gymwys i gael grant a sut y gwneir taliadau.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Uned Strategaeth y Gweithlu

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Tel: 03000 604400

e-bost: teaching.enquiries@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysgagiliau

Cynnwys

Y cefndir	2
1. Y cymhellion hyfforddi athrawon: blwyddyn academiaidd 2017/18 – trosolwg	3
2. Grantiau hyfforddi	5
Pwy sy'n gymwys i gael grant hyfforddi	5
Pa grantiau y dylid eu talu	5
Pryd y dylid gwneud y taliadau	7
Sut y telir y grantiau hyfforddi	7
Adennill grantiau a dalwyd	7
3. Cwestiynau cyffredin	9
A yw'r grant hyfforddi yn drethadwy?	9
Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar gymorth arall a roddir i fyfyrwyr?	9
Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar fudd-daliadau?	9
A fydd y grant hyfforddi yn ysgogi ad-dalu benthyciad?	9
Atodiad: Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2017	10
Addysg Cymru 2017 Rhif 11	10

Y cefndir

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 14–17 o Ddeddf Addysg 2002 i gynnig cymorth ariannol i hyrwyddo recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu.

Lluniwyd Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2017 (2017 Rhif 11) (“y Cynllun”) gan Weinidogion Cymru drwy arfer eu pwerau ar 8 Mawrth 2017. Atodir copi o'r Cynllun yn yr atodiad i'r canllawiau hyn. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau ar ffurf cymhellion i unigolion cymwys ddilyn cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon (AGA) ôl-raddedig yng Nghymru mewn pynciau penodedig.

Cyhoeddir y canllawiau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adran 10 Deddf Addysg 1996, a chyfeirir atynt ym mharagraff 3 y Cynllun. Cawsant eu paratoi i gynorthwyo myfyrwyr a darparwyr achrededig i arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Cynllun.

Mae'r canllawiau'n berthnasol i fyfyrwyr yng Nghymru sydd, rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018, yn dechrau ar gyrsiau AGA a fydd yn arwain at ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig mewn pynciau penodedig, ac a gynhelir gan ddarparwyr hyfforddiant athrawon a achredwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Mae'r canllawiau'n darparu gwybodaeth am y cymhellion hyfforddi athrawon. Maent yn amlinellu pa gyllid sydd ar gael, pwy sy'n gymwys i gael grant, a sut y gwneir y taliadau. Nid y canllawiau fel y cyfryw sy'n pennu maint y cyllid, pwy sy'n gymwys i'w gael nac unrhyw amod arall ynglŷn â'r grant - pennir y rhain i gyd yn y Cynllun, a dylid darllen y Cynllun ochr yn ochr â'r canllawiau hyn er mwyn cael cadarnhad a oes cyllid ar gael. Os gwelir bod unrhyw anghysondeb rhwng y canllawiau a'r Cynllun, darpariaethau'r Cynllun fydd yn drech.

Nid oes a wnelo'r canllawiau hyn ddim â chymhellion a gynigir ar gyrsiau sy'n arwain at gymwysterau addysg bellach.

1. Y cymhellion hyfforddi athrawon: blwyddyn academiaidd 2017/18 – trosolwg

1.1 Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg cryno o'r cymhellion hyfforddi athrawon ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018. Nid yw'n ymdrin â phob agwedd; ceir gwybodaeth lawn ynglŷn â chymhwysedd ac amodau yn y Cynllun.

1.2 Grantiau yw'r cymhellion hyfforddi athrawon, sydd ar gael i unigolion cymwys er mwyn dilyn cwrs AGA ôl-raddedig yng Nghymru ("grantiau hyfforddi"). Mae'n rhaid i'r cwrs arwain at ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig, rhaid iddo ddechrau rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018, a chael ei gynnal gan ddarparwr AGA sydd wedi'i achredu gan CCAUC.

1.3 Mae'r cyfeiriadau at gyrsiau AGA ôl-raddedig neu gyrsiau TAR yn y canllawiau yn cynnwys y cymwysterau canlynol – Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg, Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion a Diploma Ôl-raddedig mewn Addysg.

1.4 Ni thelir grant i unrhyw unigolyn oni fydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru, o dan ofal Llywodraeth Cymru, yn y fath fodd a chan ddarparu'r fath wybodaeth ag sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru. Bydd y darparwr AGA yn gofyn i'r myfyrwyr lenwi'r ffurflenni perthnasol.

1.5 Yn amodol ar gymhwysedd, bydd grantiau hyfforddi ar gyfer cyrsiau AGA ôl-raddedig yng Nghymru, sy'n cychwyn rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018, ar gael hyd at un o'r symiau a restrir yng ngholofn "A" o'r tabl ym mharagraff 1.9, i fyfyrwyr cymwys:

- (i) sy'n astudio, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, un neu ragor o'r pynciau neu'r cyfnodau a restrir yn y rhes gyfatebol yng ngholofn "B" o'r tabl ym mharagraff 1.9; a
- (ii) pan dderbynnir hwy i'r cwrs AGA ôl-raddedig, sy'n dal gradd neu gymhwyster cyfwerth a ddyfarnwyd iddynt gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu radd gyfwerth neu gymhwyster arall cyfwerth a ddyfarnwyd iddynt gan sefydliad tramor, o'r dosbarth a bennir yng ngholofn "C" o'r tabl ym mharagraff 1.9.

1.6 Yn ogystal â'r cyfanswm a ddyfernir i unigolion cymwys sy'n dilyn cyrsiau cynradd ôl-raddedig a fydd yn cychwyn yn 2017/18 ac sy'n meddu ar radd mewn dosbarth fel y nodir yng ngholofn C o'r tabl ym mharagraff 1.9, dyfernir tâl atodol ychwanegol o £3,000 i hyfforddeion cynradd ôl-raddedig cymwys sy'n meddu ar radd dosbarth cyntaf gydag arbenigedd pwnc mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg, ffiseg neu gemeg. Y nod yw cefnogi arbenigedd pwnc yn y pynciau craidd mewn ysgolion cynradd.

1.7 Nid oes angen i'r radd neu'r cymhwyster cyfwerth a bennir yng ngholofn "C" o'r tabl ym mharagraff 1.9 fod yn yr un pwnc â'r un a ddilynwyd ar y cwrs AGA ôl-raddedig a nodir yng ngholofn "B" y tabl hwnnw.

1.8 At ddibenion y cymhwyster a bennir yng ngholofn “C” o’r tabl ym mharagraff 1.9, ni fydd unrhyw fath o radd er anrhydedd yn cael eu cydnabod fel cymwysterau academaidd.

1.9 Dyma’r tabl y cyfeirir ato ym mharagraff 1.5:

A	B	C
Swm y grant hyfforddi	Pwnc neu Gyfnod	Dosbarth cymhwyster gradd
£20,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn mathemateg, ffiseg, cemeg neu Gymraeg	1 ^{af}
£15,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn ieithoedd tramor modern neu TGCh (cyfrifiadureg)	1 ^{af}
£10,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn mathemateg, ffiseg, cemeg neu Gymraeg	2.1
£6,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn ieithoedd tramor modern neu TGCh (cyfrifiadureg)	2.1
£6,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn mathemateg, ffiseg, cemeg a Chymraeg	2.2
£3,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn dylunio a thechnoleg, Saesneg, bioleg, hanes, addysg grefyddol, celf, addysg gorfforol, cerddoriaeth, drama, astudiaethau busnes, astudiaethau awyr agored, y gwyddorau cyffredinol neu ddaearyddiaeth Cyrsiau cynradd ôl-raddedig	1 ^{af}
Tâl atodol ychwanegol o £3,000	Cyrsiau cynradd ôl-raddedig gydag arbenigedd pwnc gradd mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg, ffiseg neu gemeg	1 ^{af}

2. Grantiau hyfforddi

Pwy sy'n gymwys i gael grant hyfforddi

2.1 Mae'r grantiau hyfforddi ar gael i bersonau sy'n dechrau cyrsiau AGA ôl-raddedig priodol yng Nghymru rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018¹. Rhaid i'r cwrs arwain at ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig, a chael ei gynnal gan ddarparwr AGA sydd wedi'i achredu gan CCAUC. Mae'r grantiau hyfforddi ar gael ar gyfer cyrsiau amser llawn a rhan-amser.

2.2 Mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn i beidio â thalu grant hyfforddi i fyfyrwyr sydd wedi eu derbyn ar gwrs AGA ôl-raddedig ar ôl i'r targed derbyn ar gyfer y cwrs hwnnw gael ei gyrraedd, (fel y nodir gan CCAUC). Dylai myfyrwyr ofyn am gadarnhad gan eu darparwr AGA na fydd hyn yn effeithio arnynt.

2.3 Er mwyn bod yn gymwys i gael grant hyfforddi, rhaid i'r unigolyn:

- (a) ddilyn cwrs hyfforddi AGA ôl-raddedig yng Nghymru;
- (b) fod yn fyfyrwr cymwys â hawl ganddo i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'r cwrs hwnnw²;
- (c) heb fod wedi cymhwyso fel athro neu athrawes eisoës;
- (d) heb fod wedi ei gyflogi i addysgu mewn ysgol neu sefydliad arall fel athro neu athrawes;
- (e) heb fod wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan unrhyw gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth;
- (f) heb fod wedi dilyn cwrs addysg bellach o unrhyw fath.

Pa grantiau y dylid eu talu

2.4 Telir y grantiau hyfforddi mewn naw rhandaliad misol ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref 2017 a Mehefin 2018 yn y symiau a ddangosir yn y tabl ym mharagraff 2.6, a byddant yn daladwy yn ystod neu tua'r wythnos olaf ym mhob mis.

2.5 **Sylwer:** at ddibenion paragraff 2.4, ac eithrio ym mis Hydref, ystyr "yr wythnos olaf" ym mhob mis yw'r wythnos sy'n cynnwys diwrnod gwaith olaf y mis hwnnw, Yr "wythnos olaf" ym Mehefin fydd naill ai'r wythnos sy'n cynnwys y diwrnod gwaith olaf o Fehefin neu, os yw'n gynharach, yr wythnos pan fo'r cwrs yn dod i ben.

¹ Os bydd darparwr AGA yn gofyn i fyfyrwyr fynychu ysgol am gyfnod cyn i'r cwrs AGA gychwyn yn ffurfiol, yna, cyhyd â bod y cwrs ei hun yn cychwyn yn ffurfiol ar ôl 31 Awst 2017, ni fydd mynychu'r ysgol yn golygu bod myfyrwyr yn anghymwys i gael y grant hyfforddi.

² Y Rheoliadau sydd, ar hyn o bryd, yn berthnasol i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n ymestyn o 1 Medi 2017 i 31 Awst 2018 yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/54 (Cy. 5)).

2.6 Y tabl y cyfeirir ato ym mharagraff 2.4 yw'r canlynol:

Swm y grant hyfforddi	Symiau'r taliadau misol o Hydref 2017 i Fai 2018, yn gynwysedig	Taliad terfynol ym Mehefin 2018
£20,000	£2,000	£4,000
£15,000	£1,500	£3,000
£10,000	£1,000	£2,000
£6,000	£600	£1,200
£3,000 (Tâl atodol cynradd hefyd)	£300	£600

2.7 Bydd gan unigolion sy'n gymwys am grant hyfforddi ac yn ymuno â chwrs AGA ôl-raddedig sydd eisoes wedi cychwyn, neu sy'n ymadael â chwrs cyn ei gwblhau, yr hawl i gael y taliadau misol hynny, yn unig, a ddaw'n ddyledus i'w talu mewn perthynas â'r cyfnod y maent yn bresennol ar y cwrs. Er enghraifft, pe bai rhywun yn ymuno â chwrs blwyddyn o hyd ym mis Rhagfyr 2017 ac yn parhau ar y cwrs nes ei gwblhau, byddai hawl ganddo, yn unig, i daliadau mewn perthynas â'r cyfnod Rhagfyr 2017 i Fehefin 2018.

2.8 Os bydd rhywun, a fyddai fel arall yn gymwys i gael grant hyfforddi, wedi cael rhan o grant hyfforddi neu'r cyfan ohono, o dan y cynllun hwn neu unrhyw gynllun blaenorol yng Nghymru cyn 1 Medi 2017 (neu wedi cael, ar unrhyw adeg, unrhyw swm o grant mewn perthynas â chynlluniau cyfatebol yn Lloegr), bydd rhandaliadau'r grant hyfforddi y bydd hawl ganddo i'w cael yn cael eu lleihau gan nifer y rhandaliadau grant blaenorol a gafodd.

2.9 Bydd y grantiau hyfforddi i fyfyrwyr cymwys a fydd yn ailymuno â chwrs AGA wedi iddynt ei ohirio yn cael eu talu ar y gyfradd isaf (os oes un) o'r gyfradd grant hyfforddi a oedd yn gymwys yn y flwyddyn academaidd y gadawodd y myfyriwr y cwrs, neu'r gyfradd grant hyfforddi sy'n gymwys yn y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn ailymuno â'r cwrs. Os bydd gwerth y grant hyfforddi yn ddim yn y flwyddyn y bydd y myfyriwr yn ailymuno â'r cwrs, yna ni fydd yn derbyn unrhyw daliadau pellach oni fydd Gweinidogion Cymru yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig. Rhaid i unrhyw gytundeb i barhau i dderbyn taliadau cymhelliant ar y raddfa y'u derbyniwyd yn flaenorol gael ei roi gan Weinidogion Cymru ar adeg gohirio'r astudiaethau. Os rhoddir cytundeb, gall y myfyriwr barhau i dderbyn y cymhelliant a fyddai wedi bod yn gymwys yn y flwyddyn y dechreuodd ar y cwrs.

2.10 Bydd y grantiau hyfforddi i fyfyrwyr cymwys sy'n dechrau ar gwrs AGA ar ôl gohirio'u cofrestriad yn cael eu talu ar y gyfradd grant (os oes un) sy'n gymwys yn y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn ymuno â'r cwrs, oni fydd Gweinidogion Cymru yn cytuno'n wahanol, yn ysgrifenedig, fel a ragnodir ym mharagraff 2.9.

2.11 Bydd hawl gan unigolyn, sydd fel arall yn gymwys i gael grant hyfforddi ond sydd hefyd wedi derbyn unrhyw swm o grant o dan Reoliadau Addysg (Cymhelliad Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999 (sydd bellach wedi eu dirymu), neu unrhyw reoliadau cyfatebol eraill a oedd mewn grym ar y pryd yn Lloegr, i gael grant hyfforddi ar gyfradd ostyngol, a fydd yn lleihau'r grant hyfforddi o swm sy'n gyfartal â swm y grant blaenorol a gafodd yr unigolyn o dan y rheoliadau hynny.

Pryd y dylid gwneud y taliadau

2.12 Dylid gwneud pob taliad yn ystod wythnos olaf y mis y daw'r taliad yn ddyledus ynddo. Mater i'r darparwr yw penderfynu union ddyddiadau'r taliadau.

2.13 Ni ddylid gwneud taliadau ac eithrio i'r myfyrwyr hynny sy'n bresennol ar y cwrs ar y dyddiad talu. Rhaid peidio â gwneud taliad i unrhyw fyfyrwr sydd wedi gadael y cwrs cyn y dyddiad hwnnw, neu sydd i ffwrdd am gyfnod o absenoldeb salwch hirdymor.

2.14 Os bu myfyrwr i ffwrdd am gyfnod o absenoldeb salwch hirdymor neu os oedd wedi rhoi'r gorau i'w astudiaethau dros dro, ond ei fod yn ailymuno â'r cwrs er mwyn cwblhau'r amser a gollwyd, bydd yn gymwys i gael cyllid am y cyfnod rhwng ailymuno â'r cwrs a'i orffen. Mae hyn yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff 2.9, ac ni chaiff cyfanswm y taliadau fod yn fwy na'r swm perthnasol a bennir ym mharagraff 1.9.

Sut y telir y grantiau hyfforddi

2.15 Bydd myfyrwyr cymwys yn cael eu taliadau grant gan eu darparwr AGA. Bydd y tâl atodol ychwanegol a ddyfernir i hyfforddeion sy'n meddu ar radd gydag arbenigedd pwnc mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg, ffiseg neu gemeg ar gyfer cyrsiau cynradd ôl-raddedig cymwys (a lle mae gan yr hyfforddeion radd dosbarth 1af), yn cael ei dalu ar yr un pryd â'r prif grant cymell sy'n daladwy i hyfforddeion cynradd ôl-raddedig cymwys sydd â gradd dosbarth 1af fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 1.9.

2.16 Ar ddechrau eu cyrsiau, rhaid i ddarparwyr AGA ofyn i fyfyrwyr lofnodi ffurflen ddatganiad a fydd yn eu galluogi i hawlio'u grant (ar "Ffurflen TT 2017/18 – Atodiad A1").

2.17 Dylid nodi bod y ffurflen honno'n cynnwys eitem yn y datganiad sy'n gofyn i'r myfyrwr gadarnhau ei fod wedi darllen y canllawiau hyn.

Adennill grantiau a dalwyd

2.18 Mae pwerau gan Weinidogion Cymru i adennill grantiau a dalwyd, yn llawn neu'n rhannol. Mae ganddynt y disgresiwn i arfer neu beidio ag arfer y pwerau hynny, a byddant yn ystyried pob achos unigol ar sail teilyngdod.

2.19 Mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn arfer y pwerau hyn:

- (a) os yw'r derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o'r grant, yn methu â bodloni unrhyw faen prawf cymhwysedd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rhandaliad dilynol; neu;
- (b) os yw'r derbynnydd, yn ei gais am grant neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol; neu
- (c) os oes tystiolaeth bendant nad oedd y derbynnydd erioed wedi bwriadu cwblhau'r cwrs, neu nad oedd, ar ôl ei gwblhau, erioed wedi bwriadu mynd i ddysgu.

3. Cwestiynau cyffredin

A yw'r grant hyfforddi yn drethadwy?

3.1 Ein dealltwriaeth ni yw nad yw'r grant hyfforddi yn drethadwy i fyfyrwyr amser llawn. Yn achos myfyrwyr rhan-amser, gall eich cyflog gael ei drethu; mae'n dibynnu pa mor uchel yw cyfanswm eich incwm trethadwy yn ystod blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, dylai myfyrwyr ofyn am gyngor gan Gyllid a Thollau EM ynglŷn â'u sefyllfa bersonol.

Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar gymorth arall a roddir i fyfyrwyr?

3.2 At ddibenion darpariaethau cyllid myfyrwyr eraill, sy'n seiliedig ar incwm yr aelwyd, ni fydd y grant hyfforddi yn cael ei ystyried yn rhan o'ch incwm, ac ni ddylech ei gynnwys wrth gyfrifo'ch incwm nas enillwyd.

Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar fudd-daliadau?

3.3 Dylech ofyn am gyngor gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â'ch sefyllfa unigol.

A fydd y grant hyfforddi yn ysgogi ad-dalu benthyciad?

3.4 Nid tra byddwch yn derbyn hyfforddiant amser llawn. Mae'n bosibl yr ysgogir ad-daliadau pan fyddwch yn ennill cyflog fel athro. Os ydych yn dilyn hyfforddiant yn rhan-amser, bydd eich rhwymedigaeth yn dibynnu ar a yw maint eich cyflog yn ddigon uchel i ysgogi ad-daliadau.

Atodiad: Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2017

Addysg Cymru 2017 Rhif 11

Cefndir

1. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 i gynnig cymorth ariannol ar gyfer hyrwyddo recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu. Gwneir Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2017 ("y Cynllun hwn") drwy arfer y pwerau hyn.

2. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2017 ac mae'n berthnasol i Gymru. Mae'r Cynllun hwn yn disodli Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2016 (2016 Rhif 20) ("Cynllun 2016") mewn perthynas â'r rhai y mae eu rhaglen hyfforddi yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Medi 2017 ond cyn 1 Medi 2018.

Bydd y cynlluniau blaenorol yn parhau i fod yn gymwys fel a ganlyn:

- i. Bydd darpariaethau Cynllun 2016 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2016 ond cyn 1 Medi 2017.
- ii. Bydd darpariaethau Cynllun 2015 yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2015 ond cyn 1 Medi 2016.
- iii. Bydd darpariaethau Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2014 (2014 Rhif 7) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2014 ond cyn 1 Medi 2015.
- iv. Bydd darpariaethau Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2013 (2013 Rhif 53) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2013 ond cyn 1 Medi 2014.
- v. Bydd darpariaethau Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2012 (2012 Rhif 24) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ond cyn 1 Medi 2013.
- vi. Bydd darpariaethau Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2011 (2011 Rhif 19) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2011 ond cyn 1 Medi 2012.
- vii. Bydd darpariaethau Cynllun Cymhelliant Hyfforddi Athrawon 2010 (2010 Rhif 27) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi ar neu ar ôl 1 Medi 2010 ond cyn 1 Medi 2011.
- viii. Bydd darpariaethau'r Cynllun i Gymell Hyfforddiant Athrawon 2006 (2006 Rhif 60) fel y'i diwygiwyd gan y Cynllun i Gymell Hyfforddiant Athrawon (Diwygio) 2008 (2008 Rhif 34) yn parhau'n gymwys i'r rhai y cychwynnodd eu rhaglen hyfforddi cyn 1 Medi 2010.

3. Gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar y Cynllun hwn o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 i gynorthwyo myfyrwyr a darparwyr achrededig sy'n arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Cynllun hwn.

Crynodeb o'r Cynllun hwn

4. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau ar ffurf cymhellion i unigolion cymwys ddilyn cwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon yng Nghymru mewn pynciau penodedig.

Dehongli

5. Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y Cynllun hwn:-

ystyr "sefydliad achrededig" ("*accredited institution*") yw sefydliad a achredir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan reoliad 7 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012¹;

ystyr "cyflogedig" ("*employed*") yw cyflogedig o dan gontract cyflogaeth neu wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau rywfodd heblaw o dan gontract cyflogaeth, a rhaid dehongli "cyflogaeth" ("*employment*") yn unol â hynny;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a wneir o dan reoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 neu o dan unrhyw gynllun diwygiedig neu gynllun newydd a gyflwynwyd;

mae i "athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig" ("*qualified teacher*") yr ystyr a roddir i "qualified teacher" gan adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002: sef "a person who satisfies requirements specified in regulations"¹;

ystyr "cwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon" ("*postgraduate teacher training course*") yw cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon ôl-raddedig llawn amser, rhan-amser neu hyblyg, a ddarperir mewn sefydliad achrededig yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn mae "hyblyg" yn dynodi bod hyd a phatrwm y cwrs wedi eu penderfynu drwy gyfeirio at brofiad ac anghenion hyfforddiant y myfyriwr.

Grantiau cymell

6. Caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau o dan y paragraff hwn ("grantiau hyfforddi") ar ffurf cymhellion i unigolion sy'n bodloni gofynion paragraff 8 a pharagraff 9.

7. Mae'r grantiau a roddir o dan y Cynllun hwn yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir ym mharagraffau 12 i 17.

¹ Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, (O.S. 2012/724 (Cy. 96)).

Cymhwysra ar gyfer cael grantiau hyfforddi

8. Er mwyn bod yn gymwys i gael grant hyfforddi, rhaid i'r unigolyn:-

- (g) ddilyn cwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon yng Nghymru a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Medi 2017 ond cyn 1 Medi 2018;
- (h) fod yn fyfyrwr cymwys â hawl ganddo i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'r cwrs hwnnw²;
- (i) heb fod wedi cymhwyso fel athro neu athrawes eisoes;
- (j) heb fod wedi ei gyflogi i addysgu mewn ysgol neu sefydliad arall fel athro neu athrawes;
- (k) heb fod yn cymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan unrhyw gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth;
- (l) heb fod yn dilyn cwrs addysg bellach o unrhyw fath.

9. Er mwyn bod yn gymwys i gael grant hyfforddi hyd at un o'r symiau a restrir yng ngholofn "A" o'r tabl ym mharagraff 10, rhaid i unigolyn:-

- (a) fod yn astudio, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, un neu ragor o'r pynciau neu'r cyfnodau a restrir yn y rhes gyfatebol yng ngholofn "B" o'r tabl ym mharagraff 10; a
- (b) pan dderbynnir ef i'r cwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon, bod yn ddeiliad gradd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu radd gyfwerth neu gymhwyster arall cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad tramor, o ddosbarth a bennir yn y rhes gyfatebol yng ngholofn "C" o'r tabl ym mharagraff 10. Nid yw'n ofynnol bod y radd gyntaf neu'r cymhwyster cyfwerth yn yr un pwnc â'r pwnc sy'n cael ei astudio ar y cwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon.

² Y Rheoliadau sydd, ar hyn o bryd, yn berthnasol i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n ymestyn o 1 Medi 2017 i 31 Awst 2018 yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/54 (Cy. 5)).

10. Dyma'r tabl y cyfeirir ato ym mharagraff 9:-

A	B	C
Swm y grant hyfforddi	Pwnc neu Gyfnod	Dosbarth y cymhwyst er gradd gyntaf
£20,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn mathemateg, ffiseg, cemeg a Chymraeg	1af
£15,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn ieithoedd tramor modern neu TGCh	1af
£10,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn mathemateg, ffiseg, cemeg neu Gymraeg	2.1
£6,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn ieithoedd tramor modern neu TGCh	2.1
£6,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn mathemateg, ffiseg, cemeg neu Gymraeg	2.2
£3,000	Cyrsiau ôl-raddedig uwchradd mewn dylunio a thechnoleg, Saesneg, bioleg, hanes, addysg grefyddol, celf, addysg gorfforol, cerddoriaeth, drama, astudiaethau busnes, astudiaethau awyr agored, y gwyddorau cyffredinol neu ddaearyddiaeth Cyrsiau ôl-raddedig cynradd	1af
Tâl atodol ychwanegol o £3,000	Cyrsiau ôl-raddedig cynradd gydag arbenigedd pwnc gradd mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg, ffiseg neu gemeg	1af

11. Yn ogystal â'r cyfanswm a ddyfernir i unigolion sy'n dilyn cyrsiau ôl-raddedig cynradd a fydd yn cychwyn yn 2017/18 ac sy'n meddu ar radd mewn dosbarth fel y nodir yng ngholofn C o'r tabl ym mharagraff 10, dyfernir tâl atodol ychwanegol o £3,000 ar gyfer hyfforddeion ôl-raddedig cynradd sy'n meddu ar radd dosbarth 1af gydag arbenigedd pwnc mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg, ffiseg neu gemeg. Nod hyn yw codi safonau llythrennedd a rhifedd a chefnogi'r gwyddorau mewn ysgolion cynradd.

Amodau

12. Ni thelir grant i unigolyn o dan baragraff 6 oni fydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru ym mha bynnag ffurf, ar ba bynnag adeg a chan gynnwys pa bynnag fanylion y caiff Gweinidogion Cymru eu penderfynu.

13. Caiff Gweinidogion Cymru yn ôl eu disgresiwn beidio â thalu grant hyfforddi i unigolion a gafodd eu derbyn ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yng Nghymru wedi i'r cwrs hwnnw gyrraedd y targed derbyn ar ei gyfer (fel y nodwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru).

14. Bydd gan unigolyn sy'n gymwys i gael grant hyfforddi ac sy'n ymuno â chwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig sydd eisoes wedi cychwyn, neu sy'n ymadael â'r cwrs cyn ei gwblhau, yr hawl i gael y swm hwnnw o grant, yn unig, sy'n ddyledus ac yn daladwy yn ystod yr amser y mae'r unigolyn hwnnw'n dilyn y cwrs hyfforddi (yn unol ag unrhyw raglen daliadau a lunnir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd).

15. Bydd grantiau hyfforddi i fyfyrwyr sy'n cychwyn ar ôl gohirio'u cofrestriad yn cael eu talu ar y gyfradd grant hyfforddi (os oes un) sy'n gymwys yn y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn ymuno â'r cwrs, oni fydd Gweinidogion Cymru yn cytuno'n wahanol, yn ysgrifenedig. Bydd grantiau hyfforddi i fyfyrwyr sy'n ailymuno â chwrs ar ôl gadael y cwrs yn cael eu talu ar y gyfradd isaf (os oes un) o'r gyfradd grant hyfforddi a oedd yn gymwys yn y flwyddyn academaidd y gadawodd y myfyriwr y cwrs hyfforddi, neu'r gyfradd grant hyfforddi (os oes un) sy'n gymwys yn y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn ailymuno â'r cwrs, oni fydd Gweinidogion Cymru yn cytuno'n wahanol, yn ysgrifenedig.

16. Bydd gan unigolyn, sydd fel arall yn gymwys i gael grant hyfforddi ond sydd hefyd wedi cael unrhyw swm o grant hyfforddi neu o unrhyw grant sy'n daladwy o dan unrhyw drefniadau yn Lloegr, y bodlonwyd Gweinidogion Cymru eu bod yn cyfateb i'r trefniadau a wnaed mewn perthynas â grantiau hyfforddi yn unol â'r Cynllun hwn, cyn 1 Medi 2017, yr hawl, yn unig, i grant hyfforddi a gaiff ei ostwng gan nifer y rhandaliadau blaenorol a gafodd yr unigolyn hwnnw dan y grantiau eraill hynny. Bydd hawl gan unigolyn, sy'n gymwys fel arall i gael grant hyfforddi ond sydd hefyd wedi derbyn unrhyw swm o grant o dan Reoliadau Addysg (Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999 neu unrhyw reoliadau cyfatebol eraill a oedd mewn grym ar y pryd yn Lloegr, i gael grant hyfforddi, ond caiff y grant hyfforddi ei ostwng gan swm y grant blaenorol a gafodd yr unigolyn hwnnw o dan y rheoliadau hynny.

17. Caiff Gweinidogion Cymru fynnu bod rhan neu gyfan o unrhyw grant a dalwyd o dan baragraff 6 yn cael ei ad-dalu:-

- (a) os yw'r derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o'r grant, yn methu â bodloni unrhyw feini prawf cymhwysedd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rhandaliad dilynol;
- (b) os yw'r derbynnydd, yn ei gais am grant neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol;

- (c) os oes tystiolaeth bendant nad oedd y derbynnydd erioed wedi bwriadu cwblhau'r cwrs, neu nad oedd, ar ôl ei gwblhau, erioed wedi bwriadu mynd i ddysgu.

Talu'r grant


18. Ceir talu grantiau o dan baragraff 6 naill ai mewn un cyfandaliad neu mewn pa bynnag nifer o randaliadau, ac ar ba bynnag adegau, a benderfynir gan Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cyllid i sefydliad achrededig ar gyfer talu i unigolyn sydd ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig, ar ba bynnag adegau a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

19. Bydd y tâl atodol ychwanegol a ddyfernir i hyfforddeion cymwys sy'n meddu ar radd gydag arbenigedd pwnc mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg, ffiseg neu gemeg ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig cynradd, a lle mae gan yr hyfforddeion radd dosbarth 1af, yn cael ei dalu ar yr un pryd â'r prif grant cymell sy'n daladwy i hyfforddeion ôl-raddedig cynradd cymwys sydd â gradd dosbarth 1af fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 10.

Gweinyddu

20. Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu, i'r sefydliadau achrededig sy'n cael cyllid o dan baragraff 18, grant o hyd at 2% o gyfanswm y cyllid hwnnw, yn gydnabyddiaeth am y costau gweinyddu a chostau eraill sy'n gysylltiedig â gwneud taliadau o dan y paragraff hwnnw. Bydd angen i sefydliadau achrededig, fel rhan o unrhyw arian grant, dalu sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (y cyfeirir atynt ym mharagraff 3).

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru



Kirsty Williams AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Dyddiedig 8 Mawrth 2017